# Cymeriadau Dify r



| | |
|---|---|
| Llyfr: | **Poli Pump (5)** |
| Adnoddau: | Poster - *gweler y ddogfen 'Poli Pump – poster'.* |
| Camau: | Cam 1 - Edrychwch ar y poster fel dosbarth neu mewn grŵp. Trafodwch yn gyffredinol yr hyn sydd yn y llun, e.e. Rwy'n gweld yr haul yn yr awyr / Mae'r gwair yn wyrdd / Mae'r cymeriadau yn cicio'r bêl yn y parc.<br><br>Cam 2 - Tynnwch sylw'r dysgwyr at y 5 afal ar y goeden yn y llun.<br><br>Cam 3 - Gofynnwch i'r disgyblion a ydyn nhw'n gallu darganfod eitemau eraill o bump yn y llun, e.e. pum beic / pum ci / pum hwyaden / pum gwenynen / pump person yn cael picnic. |
| Cwestiynu: | • Beth ydych chi'n gallu ei weld yn y llun?<br>• Sawl afal sydd?<br>• Sawl … sydd yn y llun?<br>• Oes 5 … yn y llun?<br>• Allwch chi ddarganfod 5….?<br>• Sawl grŵp o 5 sydd?<br>• Allwch chi ffurfio 5? |
| Beth nesaf? | **Ffurfio 5:**<br>• Ffurfiwch 5 gyda'ch gilydd yn yr awyr.<br>• Ffurfiwch 5 mewn ewyn eillio.<br>• Ffurfiwch 5 ar bapur (gyda phensil / paent / torri a gludo darnau papur lliw i lenwi amlinelliad siâp rhif 5).<br><br>**Cyfateb rhif a llun:**<br>Trefnu a gludo lluniau / gwrthrychau i setiau o 5 ar daflen neu yn yr awyr agored. |

